



## **In-depth Briefings**

# **Diwygio Llesiant**

**Diweddariad: Chwefror 2019**

**Mae'r diweddariad hwn yn rhoi sylw i'r dilynol:**

- **Newidiadau Cyllideb y Deyrnas Unedig**
- **Ymfudo a Reolir (Credyd Cynhwysol)**
- **Credyd Pensiwn ar gyfer cyplau oedran cymysg**
- **Premiwm Anabledd Difrifol**
- **Terfyn Dau Blentyn**
- **Blwyddyn 53 wythnos rent (Credyd Cynhwysol)**
- **Alinio amserlenni APA/MPTL gydag amserlen hawlwr (Credyd Cynhwysol)**
- **Dilysu rhent (Credyd Cynhwysol)**
- **Chwe pheth y mae'r Pedair Ffederasiwn yn gofyn amdanynt**
- **Lliniaru diwygio llesiant gan Lywodraeth Cymru**

Ers 12 Rhagfyr 2018, bu Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ar gael i hawlwr ym mhob ardal Canolfan Byd Gwaith yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn ei ymestyn yn Sir Gaerfyrddin a Gwynedd.

Yn ychwanegol, gellir yn awr hawlio Credyd Cynhwysol drwy gyfrwng y Gymraeg yn dilyn cyflwyno'r gwasanaeth Cymraeg ar 26 Tachwedd 2016.

Gyda rhai eithriadau, bydd hawlwr oedran gwaith oedd yn flaenorol yn gymwys am un o'r chwech budd-dal gwaddol a gynhwysir yn lle hynny yn hawlio'r Credyd Cynhwysol. Yn ychwanegol, bydd angen i'r rhai sy'n hawlio un neu fwy o'r chwech budd-dal gwaddol a lle mae newid yn amgylchiadau, megis symud tŷ, hawlio Credyd Cynhwysol.



Y budd-daliadau gwaddol yw:

- Credyd Treth Plant
- Budd-dal Tai
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar incwm (JSA)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cysylltiedig ag incwm (ESA)
- Credyd Treth Gwaith

Mae mwy o fanylion ar y Credyd Cynhwysol ar gael ar wefan:

<https://www.gov.uk/universal-credit>

Cafodd porth Gwasanaeth Byw Credyd Cynhwysol (fersiwn flaenorol o'r Credyd Cynhwysol nad oedd ond ar gael i rai hawl wyr) ei gau i hawl wyr newydd ers 1 Ionawr 2018 ac mae hawl wyr presennol Gwasanaeth Byw yn y broses o gael eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Llawn.

Ym mis Rhagfyr 2018 roedd tua 76,000 yn hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru (yn ôl yr Adran Gwaith a Phensiynau).

## **Cyllideb y Deyrnas Unedig 2018**

Cyhoeddwyd nifer o newidiadau i'r Credyd Cynhwysol yn ystod Cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd 2018:

- Cynnydd o £1000 i'r Lwfans Gwaith ar gyfer pobl gyda phlant a/neu gyda rhai anabledau (o fis Ebrill 2019).
- Dwy wythnos o daliadau ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n hawlio JSA seiliedig ar incwm, ESA cysylltiedig ag incwm a Chymhorthdal Incwm wrth iddynt symud i'r Credyd Cynhwysol, yn weithredol o fis Gorffennaf 2020. Mae hyn yn ychwanegol at 'redeg ymlaen' Budd-dal Tai a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y llynedd.
- Gostyngiad yn uchafswm cyfradd Didyniadau Trydydd Parti (TDP) o ddyfarniad Credyd Cynhwysol o 40% i 30% o'r lwfans safonol hwn, o fis Hydref 2019.
- Ymestyn y cyfnod y mae Llywodraeth yn adennill blaen-daliadau a dalwyd i hawl wyr o 12 i 16 mis, o fis Hydref 2021.



- Ymestyn y cyfnod gras 12 mis (y cyfnod cyn bod yr Isafswm Llawr Incwm yn dod i rym) ar gyfer hawlwr hunangyflogedig i alluogi tyfu eu busnes. Caiff hyn ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2019 a'i weithredu'n llawn o fis Medi 2020.

## Ymfudo a Reolir

Ar ôl cwblhau cwmpas daearyddol llawn Credyd Cynhwysol, cam nesaf yr ymestyn fydd 'ymfudo' hawlwr budd-daliadau gwaddol cymwys presennol i'r budd-dal newydd.

Ar ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig dynnu'r rheoliadau o'r Senedd fyddai eu hangen i gynnal ymfudo a reolir, bwriad yr Adran Gwaith a Phensiynau yw gosod set newydd o reoliadau i ganiatáu cyfnod 'profi a dysgu' yn dechrau ym mis Gorffennaf 2019 pan na chaiff **dim mwy na 10,000 o hawlwr** eu trosglwyddo o fudd-daliadau gwaddol i'r Credyd Cynhwysol. **Mae CHC yn deall ei bod yn debygol y cynhelir y cynllun peilot mewn ardal ddaearyddol benodol, sy'n debygol o fod yn Lloegr.**

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi mai eu *bwriad* o hyd yw trosglwyddo holl hawlwr cymwys budd-daliadau gwaddol i'r Credyd Cynhwysol rhwng 2020 a mis Rhagfyr 2023, fyddai'n golygu y byddai angen trosglwyddo tua 100,000 o hawlwr i'r Credyd Cynhwysol bob blwyddyn galendr yng Nghymru. Ar ddiwedd y broses hon, bydd tua 400,000 o aelwydydd (~500k o bobl) yn hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru.

Mae'r broses fanwl o ymfudo a reolir yn dal i gael ei chynllunio. Fodd bynnag, o reoliadau drafft blaenorol a gwaith gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae'n debyg y bydd yn dilyn fformat tebyg i:

1. Codi ymwybyddiaeth o'r broses drwy hysbysebu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;
2. Cysylltu â hawlwr budd-daliadau gwaddol a rhoi o leiaf 3 mis o rybudd iddynt o'u dyddiad ymfudo, erbyn pryd y mae'n rhaid iddynt hawlio Credyd Cynhwysol.
3. Caiff budd-daliadau gwaddol eu terfynu pan wneir cais am Credyd Cynhwysol, neu ar ddiwedd y ffenestr 3 mis+.
4. Gellir ôl-ddyddio'r hawliad os na chaiff ei wneud o fewn y ffenestr 3 mis.

Felly, nid yw ymfudo a reolir felly yn wir ymfudo, ond yn hytrach derfynu budd-daliadau gwaddol a gwahoddiad i hawlio Credyd Cynhwysol, gyda pheth diogelu trosiannol na roddir i hawlwr eraill Credyd Cynhwysol.



Mae gan CHC nifer o bryderon am y broses, yn cynnwys:

- Gallu cymdeithasau tai a'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddynodi hawlwr budd-dal gwaddol bregus, fydd angen cefnogaeth i hawlio Credyd Cynhwysol ac a allai fel arall fethu hawlio a cholli incwm.
- Adnoddau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y broses ymfudo a reolir, yn cynnwys swyddogion ymweld i gefnogi hawlwr bregus.
- Y cyfnod aros o bum wythnos ar gyfer hawlwr sy'n dilyn y broses ymfudo a reolir, er bod hawlwr sy'n dilyn ymfudo a reolir yn cael mwy o ddiogeliad nag ymfudwr 'naturiol' neu hawlwr newydd.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno'r achos dros rannu data rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a chymdeithasau tai i sicrhau bod cymdeithasau tai yn gwybod am ddyddiad ymfudo hawlwr bregus, fel y gellir cynnig cefnogaeth ac atal ôl-ddyledion oherwydd methiant i hawlio Credyd Cynhwysol. Fel rhan o hyn, rydym yn galw am ddychwelyd i'r system o gydsyniad ymhlyg.

Yn ychwanegol, i sicrhau y caiff hawlwr sy'n ymfudo eu cefnogi, rydym yn asesu adnoddau ar gyfer swyddogion ymweld sy'n gweithio yng Nghanolffannau Byd Gwaith Cymru ac yn galw am staff ychwanegol.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cysylltu'n helaeth gyda'r sector tai wrth ddylunio'r broses ymfudo a reolir a bydd CHC yn parhau i gyflwyno barn aelodau drwy'r rhaglen ymgysylltu.

DS: Mae pob gohiriad wrth weithredu ymfudo a reolir yn arwain at nifer fwy o hawlwr yn mynd i mewn i Gredyd Cynhwysol drwy ymfudo naturiol oherwydd newid amgylchiadau. Ni wnaeth yr ymfudwr naturiol hyn dderbyn unrhyw ddiogeliad trosiannol, felly maent dan anfantais o gymharu ag ymfudwr a reolir.

## **Credyd Pensiwn**

O 15 Mai 2019 bydd yn rhaid i gyplau lle mai dim ond un partner sydd dros oedran pensiwn (65 ar hyn o bryd - ac yn cynyddu - ar gyfer dynion a menywod) hawlio Credyd Cynhwysol fel cwpl. Hyd at 15 Mai 2019, mae gan y cwpl yma y dewis o hawlio Credyd Pensiwn neu Gredyd Cynhwysol.

## **Premiwm Anabledd Difrifol**

Daeth amod porth i rym ar 16 Ionawr i atal hawlwr sy'n derbyn Premiwm Anabledd Difrifol rhag ymfudo'n naturiol (oherwydd newid mewn



amgylchiadau) i'r Credyd Cynhwysol, ac felly'n colli taliadau'r Premiwm Anabledd Difrifol, gan nad oes ar hyn unrhyw bryd unrhyw ddarpariaeth o fewn Credyd Cynhwysol i ddisodli'r Premiwm Anabledd Difrifol.

Dan ymfudo a reolir, caiff taliadau'r Premiwm eu diogelu, i raddau, ar ymfudo i'r Credyd Cynhwysol, drwy elfen trosiannol y Credyd Cynhwysol.

### **Terfyn Dau Blentyn**

Roedd y terfyn dau blentyn ar y Credyd Treth Plant neu Gredyd Cynhwysol i fod i ddod i rym o 1 Chwefror ymlaen ar deuluoedd gyda thri neu fwy o blant, lle ganwyd y trydydd plentyn a/neu blant dilynol, cyn 6 Ebrill 2017. Nid yw hyn yn weithredol mwyach, a bydd y teuluoedd hyn yn medru parhau i hawlio Credyd Treth Plant neu'r Credyd Cynhwysol ar gyfer plant a anwyd cyn 6 Ebrill 2017. Fodd bynnag, bydd teuluoedd yn parhau i fod yn anghymwys am y Credyd Treth Plant neu'r Credyd Cynhwysol am drydydd plentyn neu blant dilynol a anwyd ar ôl 6 Ebrill 2017 ac yn y dyfodol, sy'n dangos annhegwch y polisi.

### **Blwyddyn Rent 53 wythnos**

Bydd y rhan fwyaf o gymdeithasau tai yn codi 53 taliad rent ym mlwyddyn rent 2019/20. Mae hyn yn digwydd bob tua 5/6 mlynedd. Dan y system Budd-dal Tai, nid yw hyn yn achosi problem gan y caiff costau tai eu talu'n wythnosol drwy'r Budd-dal Tai. Dan y Credyd Cynhwysol, mae cylchoedd talu yn fisol a chaiff elfen tai y Credyd Cynhwysol ei gyfrif fel sy'n dilyn:

*Lle nad yw'r cyfnod y mae'r rhentiwr yn atebol i wneud taliad perthnasol amdano yn fis, caiff swm ei gyfrif fel y cyfwerth misol, felly er enghraifft - (1) caiff taliadau wythnosol eu lluosu gan 52 a'u rhannu gan 12;<sup>1</sup>*

Mae hyn os nad yw wythnosau di-rent yn ffurfio rhan o'r denantiaeth. Yn yr achos hwn, mae'r fformiwla yn ymarferol fel sy'n dilyn:

*Taliadau wythnosol a luosir gan (52 minws wythnosau di-rent) a'u rhannu gan 12*

Fel canlyniad i hyn ni all hawlwr Credyd Cynhwysol hawlio am y 53fed wythnos ychwanegol o rent drwy elfen tai Credyd Cynhwysol. Effeithir hefyd ar hawlwr gydag wythnosau di-rent, gan y bydd y 53fed wythnos yn achosi

---

1

[http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2013/9780111531938/pdfs/ukdsi\\_9780111531938\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2013/9780111531938/pdfs/ukdsi_9780111531938_en.pdf)



wythnos ychwanegol ar ben y 51fed, 50fed neu nifer is o wythnosau rhent sy'n daladwy.

Mae CHC yn cynnig newid i'r rheoliadau Credyd Cynhwysol. Cynigiwn y dylai'r fformiwla ar gyfer cyfrif elfen tai misol Credyd Cynhwysol fod yn:

*Atebolrwydd rhent blyneddol wedi ei rannu gan 12*

Byddai'r newid syml hwn yn galluogi taliadau Credyd Cynhwysol i amrywio flwyddyn ar flwyddyn gyda nifer yr wythnosau rhent a lefelau rhent.

Cafodd CHC a'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol gyfarfod gyda Neil Couling, Cyfarwyddwr Cyffredinol Credyd Cynhwysol, i drafod hyn. Gwnaed cynnydd da tuag at ennill cyd-ddealltwriaeth o'r wythnos rent 53 wythnos, a rydym yn gweithio gyda swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau i weithio at ddatrasiad sy'n dderbyniol i bawb.

Rydym yn ymchwilio datrasiadau posibl gydag aelodau y gellid eu defnyddio i leihau'r effaith ar denantiaid, os yw'r rheoliadau yn methu newid mewn pryd ar gyfer blwyddyn rhent 2019/20.

### **Alinio amserlenni TPD/APA gydag amserlen talu hawlwr**

Yn dilyn lobbio gan CHC, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau y byddant yn gwneud gwaith yn y flwyddyn newydd i dalu taliadau APA/TPD i landlordiaid ar gylch misol, yn hytrach na chylch pedair wythnos fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai hyn yn galluogi alinio taliad i amserlenni hawlwr ac APA/TPD, gan fynd beth o'r ffordd i ddatrys camgymeriadau technegol a'r bwch gweinyddol a grëwyd. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau y gwneir y gwaith hwn cyn gynted ag sydd modd.

Mae'n debygol y caiff datrasiad ei weithredu erbyn mis Hydref 2019.

### **Dilysu rhent dan y Credyd Cynhwysol**

Rydym yn gweithio at i'r Adran Gwaith a Phensiynau ganiatáu am lanlwytho gwybodaeth ar gynnydd rhent crynswth ar y Porth Landlordiaid. Byddwn yn diweddarau dros yr wythnosau nesaf, gan y dymunwn i hyn gael ei ganiatáu ar gyfer newid rhent 2019.

### **Chwe pheth y mae'r Pedair Ffederasiwn yn gofyn amdanynt**

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Gogledd



Iwerddon (y pedair Ffederasiwn) i lobio'r llywodraeth am welliannau i'r Credyd Cynhwysol a'r system llesiant ehangach.

Yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodau CHC, rydym wedi cytuno ar set newydd o bethau allweddol yn ymwneud â llesiant y galwn amdanynt gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

- Diwedd i'r aros 5 wythnos am arian. Dylai pobl fedru cael taliad yng nghanol y cyfnod hwn a dylai fod mwy o hyblygrwydd ar amllder talu i bawb.
- Mwy o rannu data rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a landlordiaid cymdeithasol, a bydd adfer cydsyniad ymhlygyn golygu y gall landlordiaid roi cefnogaeth well i denantiaid ac atal problemau. Mae hyn yn allweddol i lwyddiant ymfudo a reolir.
- Lle caiff budd-dal ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord, rydym angen system sy'n addas i'r diben gyda landlord yn derbyn y taliad ar yr un cylch a'r tenant.
- Cyllid cynyddol ar gyfer cefnogaeth a chyngor i wneud yn siŵr nad yw pobl yn colli hawl yn cynnwys caniatáu ôl-ddyddio ar gyfer mwy o hawliadau.
- Gwneud yn siŵr fod gwaith yn talu i bawb drwy gyfateb asesiadau misol gydag enillion o fewn y cyfnod hwnnw, gwella lwfansau gwaith a gostwng y tapr
- Adfer uwchraddio cysylltiedig â chwyddiant gyda budd-daliadau oedran gwaith o fis Ebrill 2020.

Byddwn yn lobio am y newidiadau hyn yn 2019.

## **Llywodraeth Cymru i liniaru diwygio llesiant**

Dan y system budd-daliadau gwaddol, mae cysylltiadau'n bodoli rhwng awdurdodau lleol a'r system budd-daliadau, y caiff y rhan fwyaf ohonynt eu cynnal drwy weinyddu budd-dal tai gan awdurdodau lleol. Mae'r cysylltiad yma'n symleiddio mynediad i fudd-daliadau awdurdodau lleol ar gyfer hawlwyf sy'n derbyn Budd-dal Tai, megis gostwng treth gyngor, prydau ysgol am ddim, grantiau ar ddisgresiwn ac yn y blaen, a gellir gwneud cais am y budd-daliadau/gostyngiadau hyn ar yr un pryd â Budd-dal Tai. Mae'r budd-daliadau yr un fath mewn llawer o ardaloedd, mae hyn yn aml yn wir am fudd-dal tai a gostwng treth gyngor.



Dan y Credyd Cynhwysol, cafodd y cysylltiad rhwng y system budd-daliadau ac awdurdodau lleol ei dorri. Gan y caiff cefnogaeth ar gyfer costau tai ei gynnwys o fewn y taliad Credyd Cynhwysol, nid oes angen cydweithio gyda'r awdurdod lleol er mwyn hawlio budd-daliadau prif ffrwd. Gallai hyn ei gwneud yn llai tebygol y bydd hawlwr yn cael mynediad i fudd-daliadau awdurdodau lleol y mae ganddynt hawl iddynt, megis gostyngiad yn y dreth gyngor.

Mae CHC wedi galw ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru i weithio gyda Chanolfannau Byd Gwaith yng Nghymru i gyd-leoli gwasanaethau a galluogi gwneud ceisiadau am fudd-daliadau awdurdodau lleol ar yr un pryd â'r apwyntiad cyntaf am Credyd Cynhwysol yn y Ganolfan Byd Gwaith.

**Mae croeso mawr i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod unrhyw beth yn gysylltiedig â diwygio llesiant.**

**Will Atkinson**  
**Rheolydd Polisi a Rhaglenni**  
[Will-Atkinson@chcymru.org.uk](mailto:Will-Atkinson@chcymru.org.uk)  
**07557650386**